O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2934 Cy. 299)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A449 (Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd i Gyfnewidfa Brynbuga, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*20 Tachwedd 2012*
Yn dod i rym	*2 Rhagfyr 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (yr A449) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1.Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Rhagfyr 2012, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A449 (Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd i Gyfnewidfa Brynbuga, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 2 Rhagfyr 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunkroad*”) yw'r darnau hynny o gerbytffordd Cefnffordd yr A449 sy'n mynd tua'r gogledd ac sy'n ymestyn o Gyfnewidfa Coldra yn Ninas Casnewydd i Gyfnewidfa Brynbuga yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3.Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4.Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5.Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

Cymhwyso

8. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar y adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Tachwedd 2012

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd Adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1
Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd sy'n mynd tua'r gogledd ac sy'n ymestyn o ganolbwynt Trosbont Cathonnen i ganolbwynt Tanbont Llantrisaint Fawr.

ATODLEN 2
Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd sy'n mynd tua'r gogledd ac sy'n ymestyn o bwynt 2.5 cilometr i'r de o Danbont Llantrisaint Fawr hyd ganolbwynt Tanbont Llantrisaint Fawr.

ATODLEN 3
Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a gwahardd goddiweddyd pan fydd gwaith confoi'n digwydd

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd sy'n mynd tua'r gogledd ac sy'n ymestyn o bwynt 1.5 cilometr i'r de o Danbont Llantrisaint Fawr hyd ganolbwynt Tanbont Llantrisaint Fawr.

ATODLEN 4
Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn cyfan o gerbytffordd y gefnffordd sy'n mynd tua'r gogledd ac sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Chyfnewidfa Coldra, Casnewydd hyd bwynt wrth ei chyffordd â Chyfnewidfa Brynbuga, Sir Fynwy.